# Constructing Excellence in Wales: Enabling Zero Waste

Enabling ZERO WASTE

Constructing Excellence in Wales aims to improve the performance of the construction industry and promotes excellence in the built environment through collaborative working and the promotion of sharing best practices.

**Enabling Zero Waste** is a Constructing Excellence in Wales initiative providing practical, positive and active intervention of professional waste management solutions targeted at a small number of Construction and Demolition projects. CEW are working in collaboration with construction sites to offer practical intervention to the construction project and site teams to explore viable solutions of achieving zero waste. We are working with four live construction sites:

- Care Home, Newport (Castleoak Care Partnerships Ltd);
- Glynn Vivian Art Gallery, Swansea (John Weaver Contractors Ltd);
- Ice Arena Wales, Cardiff Bay (Kier Construction); and
- Millbank Primary School, Ely, Cardiff (WRW Construction Ltd).

## Project Objectives:

1. To understand and evidence when and how wastes occur during the construction process
2. To understand current strategies, methodologies and opportunities for the landfill diversion of on-site wastes
3. To work to develop solutions to prevent and minimise the generation of on-site waste, generating a reduction in waste management, disposal and landfill costs
4. To support changes to behaviour and processes that encourage prevention and minimisation of waste
5. To achieve site efficiencies from waste management opportunities/solutions
6. To disseminate the solutions and opportunities from the development of effective waste management strategies
7. To provide learning and education opportunities regarding alternative waste management techniques which can be disseminated for future projects ensuring continual benefits.

The project will give us a detailed insight into the viability of achieving zero waste to landfill. Constructing Excellence in Wales will be providing regular updates as the projects develop.

Follow the progress of the four schemes by visiting our website **www.cewales.org.uk** and our Twitter profile **@EZWaste_Wales**

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW): Galluogi Dyfodol Diwastraff

Galluogi DYFODOL DIWASTRAFF

Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yn ceisio gwella perfformiad y diwydiant adeiladu a hyrwyddo rhagoriaeth yn yr amgylchedd adeiledig drwy gydweithio a lledaenu'r arferion gorau.

Un o ymgyrchoedd CEW yw **Galluogi Dyfodol Diwastraff** lle cynigir cymorth ymarferol, positif a rhagweithiol ar ffurf atebion rheoli gwastraff proffesiynol a dargedwyd tuag at nifer fach o brosiectau Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru. Mae CEW yn cydweithio â safleoedd adeiladu drwy gynnig mesurau ymarferol i brosiectau adeiladu a thimoedd safle er mwyn canfod atebion a fydd yn galluogi dyfodol diwastraff. Rydym yn gweithio gyda phedwar safle dros y cyfnod adeiladu:

- Cartref Gofal, Casnewydd (Castleoak Care Partnerships Ltd)
- Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe (John Weaver Contractors Ltd)
- Canolfan Ia Cymru, Bae Caerdydd (Kier Construction)
- Ysgol Gynradd Milbank, Treláí, Caerdydd (WRW Construction Ltd)

## Amcanion y Prosiect:

1. Deall a dangos sut a phryd y cynhyrchir gwastraff yn ystod y broses adeiladu.
2. Deall y strategaethau, dulliau gweithredu a chyfleoedd i leihau'r gwastraff adeiladu a anfonir i safleoedd tirlenwi.
3. Gweithio i ddatblygu atebion sy'n atal a lleihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir yn ystod gwaith adeiladu, a thrwy hynny arwain at leihau costau rheoli, gwaredu a thirlenwi gwastraff.
4. Cefnogi newidiadau mewn ymddygiad a phrosesau sy'n annog adeiladwyr i gynhyrchu dim gwastraff neu cyn lleied o wastraff â phosibl.
5. Gwneud safleoedd yn fwy effeithlon drwy gyfleoedd ac atebion rheoli gwastraff.
6. Lledaenu gwybodaeth am yr atebion a'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o ddatblygu strategaethau effeithiol i reoli gwastraff.
7. Dysgu am wahanol dechnegau rheoli gwastraff y gellir eu lledaenu a'u defnyddio mewn prosiectau adeiladu eraill yn y dyfodol er mwyn gwella perfformiad yn barhaus.

Bydd y prosiect yn rhoi dealltwriaeth fanwl o ba mor ymarferol yw dyfodol lle chaiff unrhyw wastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi. Bydd CEW yn diweddaru gwybodaeth yn rheolaidd wrth i'r prosiectau fynd yn eu blaen.

Gallwch ddilyn y cynnydd a wneir gyda'r pedwar cynllun drwy ymweld â'n gwefan **www.cewales.org.uk** a'n cyfeiriad Twitter: **@EZWaste_Wales**

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government